

hwyresau yn eu colled. Un o aelodau eglwys Cefnywaun oedd hi, a'i diweddar briod Clifford yn flaenor yn yr eglwys. Cafodd ofal tyner gan ei theulu ers rhai blynnyddoedd. Bydd gwasanaeth angladd cyhoeddus yn Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair, Mynydd Llandegai, ddydd Mawrth, Chwefror 6, am 1.30 o'r gloch.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Bethan Holding a'i mab Robert, Bryn Eryri, Stryd Warden, Llanberis yn eu profedigaeth o golli taid Robert yn Sir Benfro.

## Cefnywaun

Ar ôl yr oedfa yn Neiniolen, nos Sul, Chwefror 18, bwriedir cael cyfarfod byr i roi gwybod i aelodau Cefnywaun am y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch adeiladau Ebeneser.

## Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd

Bydd aelodau'r eglwysi yn Neiniolen yn cynnal Oedfa Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Ebeneser am 6.00 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 2.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Chwefror 11:** Gwasanaethir

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Chwefror 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Chwefror 11

5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Coetmor Williams

#### Chwefror 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Coetmor Williams.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fawrth, Chwefror 6:** Cwis fydd gennym yn y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 11:** Gwasanaethir am 10.00 (Oedfa Gymundeb) a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### CARMEL

**Dydd Llun, Chwefror 5:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Chwefror 9:** Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 11:** Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Ddr Dafydd Wyn Wiliam.

### BETHLEHEM

**Dydd Iau, Chwefror 8:** Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

**Dydd Sul, Chwefror 11:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Chwefror 11:** Ni fydd oedfa.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Chwefror 4

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Dim Oedfa

#### Chwefror 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Chwefror 18

10.00 a.m. - Mr Huw Tegid Roberts

11.15 a.m.—DIM YSGOL SUL

Gofalaeth Fro'r  
Llechen Las

Rhif 758  
04 Chwefror, 2018  
**Gronyn**

## Coed a blodau

Sycamorwydden oedd hi. A chlamp o goeden oedd hi, oddeutu 70 troedfedd o uchder os deallais yn iawn. Ond fis Mehefin diwethaf bu raid ei chwmpo am ei bod wedi hollti. Roedd yr ardd ffrynt acw'n edrych yn od iawn hebddi. Fe'i torrwyd i'r llawr, a hyd yn oed yn is na hynny wedi i fwystfil o beiriant swllyd fod wrthi am fore cyfan yn malu ei gwreiddiau. Doedd dim ar ôl, a'r unig beth sy'n dangos fod coeden wedi bod yno yw'r cylch o risgl a phridd sy'n llenwi'r twll a wnaed gan grafangau'r bwystfil dur.

Un o ddwy goeden a safai yn y rhan honno o'r ardd oedd hi. Mae ei chymar yno o hyd; a'r wythnos ddiwethaf mi sylwais fod y cennin pedr yn dechrau blaguro wrth droed honno unwaith eto. Cyn bo hir, bydd hanner cylch o felyn wrth fôn y goeden; a gobeithio y bydd hynny'n lleddfu peth ar ei hiraeth hi a ninnau am y goeden dal a safai wrth ei hymyl ac am y cennin pedr a dyfai wrth ei throed hithau am flynyddoedd.

Ond wedi edrych eto, mi sylweddolais fod y cennin pedr i'w gweld hefyd lle'r oedd y goeden a dorwyd. Maen nhw'n ymwithio trwy'r rhisgl a'r pridd lle bu'r dannedd ffyrnig dur yn brathu. A dyna enghraifft syml o rym anhygoel natur ar waith o'n cwmpas. I bobl ffydd, wrth gwrs, nid grym natur yn unig ond grym a gallu Duw sy'n cynnal ac yn arglwyddiaethu dros y cyfan a greodd.

Do, mi fethodd yr anghenfil o beiriant â

difa'r cennin pedr. Yn gwbl ryfeddol, mi oroesodd y blodau'r holl dyllu a malu. Mi fethodd y gelyn angau â dal yr Arglwydd Iesu; mi fethodd brath angau â'i ddifa, gan ei fod wedi codi o'r bedd erbyn bore'r trydydd dydd. Cysur rhyfeddol yr Efengyl yw na fydd angau yn ein trechu ninnau chwaith os ydym yn credu yn yr Iesu hwn.

Nid heb reswm y mae'r Testament Newydd yn defnyddio'r darlun o'r had yn cael ei roi yn y ddaear, ac yna'n blaguro ac yn tyfu, i gyflwyno i ni'r newyddion da am yr atgyfodiad a'r bywyd tragwyddol. Mae'n rhaid i'r had gael ei blannu er mwyn i'r blodyn dyfu. Roedd rhaid i Grist farw er mwyn iddo atgyfodi a dangos gallu rhyfeddol y Duw sy'n sathru angau dan draed. A'r newyddion da yw bod i bawb sy'n credu yn Nghrist yr un gobaith o atgyfodiad i'r bywyd sydd ar eu cyfer y tu hwnt i angau.

Y mae'r bywyd tragwyddol wedi ei ddarparu ar gyfer pawb sy'n rhoi ei ffydd yn Iesu Grist. Gallu Duw sy'n gwneud hyn yn bosibl; yn union fel mai gallu Duw a ddaeth â'r Iesu'n ôl yn fyw, ac yn union fel mai gallu Duw a ddaw â bywyd o'r hedyn sy'n cael ei roi yn y pridd.

Duw galluog a nerthol yw Duw'r Beibl sy'n datguddio ei allu a'i nerth trwy ryfeddodau'r byd a greodd. Ond er mor rhyfeddol yw ei greadigaeth, yn ei Fab Iesu Grist a'i fywyd a'i waith y datguddiodd ei hunan i ni fwyaf eglur.



## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn (A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Harri Parri. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch. Bydd oedfa Gymundeb dan arweiniad y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

Cynhelir Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a bydd oedfa am 2.00 o'r gloch yng ngofal yr aelodau.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

## Cofion

Dymunwn

## Balm o Salm



BYW Y BEIBL

'Da yw moliannu'r  
ARGLWYDD, a chanu  
mawl i'th enw di, y Goruchaf, a  
chyhoeddi dy gariad yn y bore a'th  
ffyddlondeb bob nos, gyda'r dectant a'r  
nabl a chyda chordiau'r delyn.

Oherwydd yr wyt ti, O ARGLWYDD,  
wedi fy llawenyachu â'th waith; yr wyf  
yn gorfoleddu yng ngweithgarwech dy  
ddwylo.

Mor fawr yw dy weithredoedd,  
O ARGLWYDD, a dwfn iawn dy fedd-  
yliau!' (Salm 92:1-5).

## Oedfa Fedydd

Cynhaliwyd Oedfa Fedydd yng nghapel Carmel, Llanllechid ddydd Sul diwethaf pan fedyddiwyd Michalina Carolina Haf Williams, merch fach Dion Williams ac Agnieszka Szklarska, 22 Lôn Groes, Rachub. Croesawyd yn arbennig fam a brodyr Agnieszka a oedd wedi teithio o Wlad Pwyl i fod yn yr oedfa. Dymunwn bob bendith iddynt fel teulu, a gweddiwn y caiff Michalina bob cyfle i gael ei meithrin yn y Ffydd o fewn cymdeithas yr eglwys yng nghapel Carmel.

## Cwrs Ieuentid

Os oes rhywun eisiau mynd i'r Cwrs Ieuentid (blwyddyn ysgol 7-11) yng Ngholeg y Bala ar ddiwedd gwyliau hanner tymor yr ysgolion, o nos Wener hyd ddydd Sul, Chwefror 16-18, rhow-  
wch wybod i'r Gweinidog mor fuan â phosibl os gwelwch yn dda.

## Cymdeithas Undebol

Cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas Undebol yn Llanberis am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Chwefror 6. Noson Gwis fydd hon, a bydd croeso i bawb.

## Angladd

Cynhaliwyd angladd Mr John Morris, Rhiwen, Deiniolen yn Amlogfa Bangor ddydd Iau diwethaf, Chwefror 1. Bu farw Mr Morris yn Ysbyty Gwynedd ddydd Llun, Ionawr 22, yn 104 mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Gweinidog a'r Canon Idris Thomas a'r Parchg Geraint Roberts, Porthaethwy.

Ychydig wythnosau yn unig sydd ers i Mr Morris fynd i Gartref Plas Pengwaith yn Llanberis wedi cyfnod yn yr ysbyty. Hyd at hynny roedd wedi byw gartref yn Rhiwen ar ei ben ei hun, gyda chefnogaeth barod ei fab Gwyn a'i ferch yng nghyfraith Einir. Cafodd iechyd da ar hyd y blynyddoedd, a pharhaodd yn weithgar o gwmpas y ty ac yn yr ardd yn ei nawdegau hwyr. Yr oedd wr talsyth, cadarn o gorff a charedig ei ysbryd. Yr oedd yn ifanc ei olwg a'i osgo, a

byddai'n anodd i neb nad oedd yn ei adnabod gredu ei fod dros ei gant oed. Yr oedd yn sgwrsiwr diddan, ac yn gymeriad hwyliog ac annwyl iawn. Ar wahan i gyfnod byr yn ffatri Hoptpoint yng Nghyffordd Llandudno, yn y Chwarel y bu'n gweithio nes i honno gau; ac yna bu'n ofalwr yn Ysgol Gwaun Gynfi cyn gorfod ymddeol yn 65 mlwydd oed. Yr oedd yn aelod yng nghapel Cefnywaun a bu'n ffyddlon i'r oedfaon yno. Bu farw ei briod Liz ddwy flynedd ar hugain yn ôl. Cydymdeimlwn â'i feibion Haydn a Gwyn a'u gwragedd Jennifer ac Einir a'u teuluoedd yn eu colled.

Roedd y capel yn llawn i dalu'r gymwynas olaf i un a oedd yn gymeradwy yn Neiniolen a'r cylch.

## Marwolaeth

Bu farw Mrs Gwyneth Williams, Fferm Pen y Bwlch, Mynydd Llandegai ddydd Sul, Ionawr 28 yn Ysbyty Gwynedd, yn 85 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â Joyce a Martin, ei merch a'i mab yng nghyfraith, ac Emma a Bethan ei

## Cyfarfod Chwarter

Diolch i'r rhai ohonoch a ddaeth i gapel Tabernacl Llanrwst i Gyfarfod Chwarter yr Annibynwyr nos Fercher diwethaf.

Cafwyd darlith gan Mr Robert Morris, Penygroes am y diwygiad grymus a brofwyd yn ardal Beddgelert yn 1817. Cychwynnodd y Diwygiad hwn yng nghapel Nanhoron, Llŷn cyn ymledu i ardal Beddgelert. O safbwynt ddynol, dechrau'r cyfan oedd galwad a gafwyd i weddio am fendith Duw, ac yn arbennig y ffaith fod rhai o blant neu ieuentid y capel wedi ymateb i'r alwad honno a gweddio am ddiwygiad. O safbwynt arall wrth gwrs, gyda Duw y dechreuodd y cyfan wrth iddo roi awydd i bobl i'w geisio. Yn ardal Beddgelert, profwyd gwres y diwygiad yn y manau hynny yr oedd yr anghydfurfwr yn addoli ar y pryd, yn Nant Gwynant, Beddgelert a Nantmor. Roedd dylanwad y diwygiad yn fawr ar yr ardal, a throdd rhai cannoedd o bobl at Iesu Grist mewn ffydd. Mae'n debyg fod yr hanes yn ddieithr i'r rhan fwyaf ohonom, a pheth da felly yw bod dathliadau daucanmlwyddiant y diwygiad wedi rhoi cyfle i bobl ail adrodd y stori er mwyn i ni atgoffa ein gilydd o'r hyn y gall Duw ei wneud er mwyn bywhau ei waith ym mhob cyfnod.